

# Cwyno am gymorth

*“Am yr union reswm yma, felly, gwnewch eich gorau glas i ychwanegu rhinwedd at eich ffydd a gwybodaeth at rinwedd.” (adn. 5)*

## Beth am ddarllen 2 Pedr 1:1–11 ac yna myfyrio

Wrth inni ddirwyn yr astudiaethau hyn i ben, yr ydym am ddychwelyd i'r man lle y dechreuwyd ac edrych eto ar y thema ‘Gwarant Fendigedig Duw’. Wrth ddechrau, fe gawsom olwg ar yr ysgol honno sydd â saith gris iddi ac fe'n hanogwyd i gerdded i fyny'r grisiau yma, fesul un, gan fod pob gris yn ychwanegu at gyfoeth ac aeddfedrwydd ein profiad Cristnogol. Yr wyf am eich gwahodd i ganiatáu i mi nodi eto yr hyn y mae Pedr yn ei ddweud gyda golwg ar “Gwnewch eich gorau glas i ddringo yr ysgol yma.” Ond does dim disgwyl inni ddringo'r ysgol yn ein nerth ein hunain. Rhaid rhoi ein troed ar bob gris heb adael yr un allan. Mae pob un ohonom yn hiraethu am adeg yn ein bywyd Cristnogol pan fydd pethau yn haws, rhai ohonom yn dymuno adeg lle na fydd angen cymaint o hunanddisgyblaeth. Ond does dim ffordd o osgoi y frwydr. Cystal i ni dderbyn hynny a mynd ymlaen â'n bywyd ysbrydol.

Y mae Parc Bridger Wilderness yn Wyoming, yn yr Unol Daleithiau, yn debyg iawn i lawer o lefydd eraill, yn gwahodd ymwelwyr i roi eu sylwadau mewn boc. Mae yna nifer o awgrymiadau yn cael eu gwneud. Ceisiwch osgoi y llwybrau sydd yn mynd i fyny. Mae angen lifft mewn ambell le er mwyn inni gael gweld y golygfeydd heb orfod gwneud fawr o ymdrech. Mi fyddai grisiau symudol o gymorth mewn rhai mannau. Mi fyddai Macdonalds yn fuddiol mewn rhai mannau. Mae'r olygfa yn ymestyn allan o'ch blaen ymhob cyfeiriad, ond mae pobl yn colli'r olygfa oherwydd eu bod yn cwyno am lifft, neu am risiau symudol, neu'n hiraethu am Macdonalds ac yn y blaen. Peidiwch â methu y golygfeydd ysbrydol sydd gan Dduw i ddangos i chi eto yn eich bywyd. Yn hytrach, gwnewch bob ymdrech, gwnewch eich gorau glas i feddiannu'r rhinweddau er mwyn agor eich llygaid i'r golygfeydd hyn.

Mae'r bywyd Cristnogol yn fywyd sydd yn eich gorfodi i gymryd un cam ar ôl y llall. Cadwch i fynd a chaniatewch i Dduw eich arwain yn uwch ac yn uwch ac yn agosach at Iesu ei hunan. Ychwanegwch at eich ffydd y rhinweddau yr ydym wedi myfyrio arnynt ac, fel y dywedais ar y cychwyn, ni fyddwch yn methu yn eich gorymdaith. Mae Duw yn gwarantu hyn.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Diar. 4:1–27; Luc 9:23–26; Phil. 3:1–21

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae'n bosibl i osgoi baglu?
2. Beth yw'r rhesymau dros faglu yn y bywyd Cristnogol?

**Gweddï** Fy Nuw, fy Nhad, rwy'n diolch i ti am y daith ysbrydol yr wyf wedi cael ei cherdded yn ystod y deufis diwethaf. Bellach, yr wyf yn deall y theori. Caniatâ i mi ymarfer yr hyn yr wyf wedi ei ddysgu. Yn enw Iesu. Amen.